# Arolygiad o dan Adran 28
# Deddf Addysg 2005

# Adroddiad ar Ansawdd Addysg yn

# Ysgol Dyffryn Ardudwy
**Dyffryn Ardudwy**
**Gwynedd**
**LL44 2EP**

**Rhif yr Ysgol: 6612189**

**Dyddiad yr Arolygiad: 10/11/08**
**gan**
**Wil Williams**
**67644**

**Dyddiad Cyhoeddi: 15/01/09**

**O dan rif contract Estyn: 1101008**

**Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda y mae profiadau dysgu yn cwrdd ag anghenion a diddordebau dysgwyr a'r gymuned ehangach?**

**Gradd 2: Nodweddion da a dim diffygion pwysig**

91 Tystia'r ethos wâr a gofalgar a lwyddwyd i'w grëir yn yr ysgol i'r pwyslais a osodir ynddi ar ddatblygiad ysbrydol a moesol, diwylliannol a chymdeithasol y disgyblion. Hyrwyddir datblygiad ysbrydol disgyblion yn effeithiol yn y sesiynau addoli ar y cyd ac yn y gwersi addysg grefyddol er mai prin yw'r cyfleoedd iddynt fyfyrio. Bodlona trefniadau addoli ar y cyd y gofynion statudol yn llawn.

92 Integreiddir gofynion addysg bersonol a chymdeithasol (ABCh) yn effeithiol drwy'r cwricwlwm a hefyd drwy sesiynau amser cylch penodol.

## Addysg grefyddol

**Cyfnod Allweddol 1: Gradd 2 - Nodweddion da a dim diffygion pwysig**

**Cyfnod Allweddol 2: Gradd 2 - Nodweddion da a dim diffygion pwysig**

### Nodweddion da

185 Yn y ddau gyfnod allweddol, mae ymwybyddiaeth disgyblion o'r Beibl fel llyfr sanctaidd sy'n arbennig i Gristnogion, yn dda. Maent yn ailadrodd nifer o straeon ohono yn hyderus ac yn perthnasu rhai o'r digwyddiadau â'u bywydau hwy eu hunain.

186 Mae ymwybyddiaeth disgyblion o bob oedran o'r prif wyliau Cristnogol yn dda ac maent yn trafod rhai o'r prif ddigwyddiadau sy'n gysylltiedig â hwy megis y geni a'r Pasg, mewn manylder.

187 Mae gwybodaeth a dealltwriaeth disgyblion y ddau gyfnod allweddol o grefyddau mawr y byd megis Mwslemiaeth ac Iddewiaeth, yn dda. Maent yn disgrifio rhai o'u prif ddathliadau a'u defodau yn hyderus gan ddisgrifio sut maent yn effeithio ar ffordd o fyw eu dilynwyr.

188 Yn CA1, mae ymwybyddiaeth disgyblion o werthoedd megis cyfeillgarwch a charedigrwydd ac o fod yn ffrindiau gyda disgyblion eraill, yn datblygu'n dda.

189 Gŵyr disgyblion CA1 am bwysigrwydd rheolau yn y cartref a'r ysgol. Trafodant yn aeddfed y rhesymau dros osod a chadw rheolau gan berthnasu hynny i arferion hyrwyddo ymddygiad da yn eu dosbarth. Mae eu dealltwriaeth o'r gwahaniaethau rhwng sefyllfaoedd derbyniol ac annerbyniol yn dda

190 Yn dilyn ymweliadau ag addoldai lleol, mae gwybodaeth a dealltwriaeth disgyblion CA2 o nodweddion ac arferion addoldai, y gwyliau Cristnogol a'r prif ddigwyddiadau sy'n gysylltiedig â hwy, yn dda. Trafodant yn ddeallus yr arteffactau a ddefnyddir yn ystod defodau arbennig.

191 Trafoda disgyblion B3 a B4 arwyddocâd goleuni i Gristion yn ddeallus ac aeddfed iawn gan ddangos dealltwriaeth gynyddol o arwyddocâd symbolaeth mewn crefydd. Gwnânt sylwadau treiddgar wrth ddehongli'r symbolaeth mewn peintiad crefyddol adnabyddus.

192 Mae dealltwriaeth disgyblion B5 a B6 o'r modd y defnyddir defodau megis gweddi ac emyn i ddangos ein diolchgarwch, yn dda. Dônt i werthfawrogi rhyfeddod y greadigaeth a dibyniaeth dyn ar fyd natur.

### Diffygion

193 Er nad oes diffygion pwysig, nid yw gallu disgyblion B5 a B6 godi cwestiynau o'u profiad personol wedi llawn ddatblygu.